Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Dyddiad: | 7 Tachwedd 2019 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019** am **9.30 AM** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 11 - 22)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2019 (amgaeir copi).

**CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU (EITEMAU 5-12)**

**5 CAIS RHIF 01/2019/0579/PF – Y MAES GLANIO, PARC LLEWENI, DINBYCH** (Tudalennau 23 - 48)

Ystyried cais i newid defnydd tir i leoli uned swyddfa / lletygarwch, adeiladu ardal barcio gysylltiedig, defnyddio’r traciau presennol fel maes glanio ac at ddefnydd yr ysgol yrru; defnyddio’r traciau presennol i gynnal hyfforddiant 4x4 a lleoli caban ar gyfer cyflwyniadau / hyfforddiant a chreu wyneb caled yn gysylltiedig â thiwtora ar geir yn sglefrio yn y Maes Glanio, Parc Lleweni, Dinbych (copi ynghlwm).

**6 CAIS RHIF 01/2019/0752/PF – 8 LÔN NANT, DINBYCH** (Tudalennau 49 - 66)

Ystyried cais i godi estyniad a gwneud addasiadau i annedd yn 8 Lôn Nant, Dinbych (copi ynghlwm).

**7 CAIS RHIF 02/2019/0159/PF – TIR YN FRON HAUL, LLANFWROG, RHUTHUN, LL15 2DB** (Tudalennau 67 - 100)

Ystyried cais i drawsnewid adeilad presennol i gaban gwyliau, codi 3 caban gwyliau newydd, gyda ffyrdd cysylltiedig newydd, creu pwll dŵr, gosod systemau draenio a thirlunio ar dir yn Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun (copi ynghlwm).

**8 CAIS RHIF 22/2019/0544/PC - OLD BARN, HWYLFA, LLWYN, GELLIFOR, RHUTHUN** (Tudalennau 101 - 120)

Ystyried cais ar gyfer defnyddio adeilad amaethyddol i atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau, peiriannau ac offer a ddefnyddir mewn perthynas â busnes contractio a gwaith sylfaen amaethyddol yr ymgeisydd a newid defnydd tir amaethyddol cyffiniol yn storfa ategol mewn perthynas â’r adeilad (cais ôl-weithredol) yn Old Barn, Hwylfa, Llwyn, Gellifor, Rhuthun (copi ynghlwm).

**9 CAIS RHIF 43/2018/0750 – TIR I'R GOGLEDD, GORLLEWIN A'R DWYRAIN O MINDALE FARM, FFORDD HENDRE, GALLT MELYD** (Tudalennau 121 - 296)

Ailystyried cais (a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 4 Medi 2019) i ddymchwel annedd bresennol a’r tai allan, adeiladu 133 o anheddau, adeiladu ffyrdd mewnol y stâd, carthffosydd, systemau draenio trefol cynaliadwy a mannau agored, gwaith tirlunio strategol a chaled/meddal, a gwaith ategol, mewn perthynas â chais 43/2018/0751 ar gyfer ffordd gyswllt newydd i Ffordd Talargoch (A547) ar dir i ogledd, gorllewin a’r dwyrain i Mindale Farm, Ffordd Hendre, Gallt Melyd, Prestatyn (copi ynghlwm).

**10 CAIS RHIF 43/2018/0751 – TIR I’R DE-ORLLEWIN O FFORDD TŶ NEWYDD, ODDI AR FFORDD TALARGOCH (A547), GALLT MELYD** (Tudalennau 297 - 426)

Ailystyried cais (a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 4 Medi 2019) i adeiladu ffordd newydd (oddeutu 400m o hyd) o Ffordd Talargoch (A547) i dir ar Mindale Farm, mewn perthynas â chais 43/2018/0750 ar gyfer datblygiad preswyl ar ddyraniad tir tai ar dir i’r de-orllewin o Ffordd Tŷ Newydd, oddi ar Ffordd Talargoch (A547), Gallt Melyd (copi ynghlwm).

**11 CAIS RHIF 43/2019/0697/PF – 27 PLAS AVENUE, PRESTATYN** (Tudalennau 427 - 446)

Ystyried cais i godi estyniad a gwneud addasiadau i annedd yn 27 Plas Avenue, Prestatyn (copi ynghlwm).

**12 CAIS RHIF 47/2019/0766/PF – TIR A ELWID GYNT YN BURNS COTTAGE, CWM, Y RHYL** (Tudalennau 447 - 470)

Ystyried cais i godi annedd a garej (cynllun diwygiedig) ar dir a elwid gynt yn Burns Cottage, Cwm, Y Rhyl (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joe Welch (Cadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Peter Arnold Evans
Brian Jones
Huw Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Christine Marston
Melvyn Mile

Alan James (Is-Gadeirydd)

Bob Murray
Merfyn Parry
Pete Prendergast
Andrew Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned